ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 3

## DYFARNDALIADAU PERSONOL

**Dyfarndal yn sgil ymddeoliad oherwydd afiechyd**

**2.**—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys i aelod-ddiffoddwr tân sy'n gadael ei gyflogaeth oherwydd anabledd parhaol(**1**) (sefyllfa y cyfeirir ati yn y Cynllun hwn fel "ymddeoliad oherwydd afiechyd").

(2) Mae hawlogaeth gan bob aelod-ddiffoddwr tân y mae'r rheol hon yn gymwys iddo ac sy'n bodloni amod cymhwyster, adeg ei ymddeoliad, i gael pensiwn afiechyd haen is a gyfrifir yn unol â pharagraff 1 o Atodiad 1 i'r Cynllun hwn.

(3) Mae gan aelod-ddiffoddwr tân—

(a) y mae ganddo hawlogaeth i gael pensiwn afiechyd haen is,

(b) y mae ganddo o leiaf bum mlynedd o wasanaeth cymhwysol, ac

(c) y mae ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol wedi datgan amdano y farn, a gafwyd yn unol â rheol 2(2) o Ran 8, fod yr aelod-ddiffoddwr tân hwnnw wedi'i anablu'n barhaol rhag ymgymryd â chyflogaeth reolaidd,

hawlogaeth hefyd, wedi iddo ymddeol, i gael pensiwn afiechyd haen uwch yn unol â pharagraff 2 neu 3 o Atodiad 1, fel y bo angen yn ôl ei amgylchiadau.

(**1**) *Gweler* rheol 3 o Ran 1.